## Pwyllgor Rheoli Datblygu

**28 Ionawr 2026**

Yn bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Dr SL Hancock (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Dr M Havard, Mr J Hogg, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr RM Plummer, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Tinley a'r Cynghorydd C Williams.

Yn bresennol (yn rhithiol)
Cynghorydd D Clements, Ms H Gwenllian, Mrs S Hoss, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall

[Ymunodd y Cynghorydd M Bowen â'r cyfarfod cyn rhoi ystyriaeth i eitem 3 - cofnodion]

Swyddogion yn bresennol
Ms K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygiad), Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mr A Richards (Prif Swyddog Cynllunio), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 11.45am;
12.05am - 1.00pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mr M Kent (Swyddog Monitro) a'r Cynghorydd B Price.

**2. Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| Cofnod 6(a) isod NP/25/0536/FUL Creu un safle i deithwyr sy'n cynnwys un garafán sefydlog, un garafán deithiol, un ystafell ddydd/amlbwrpas, a gwelliannau ecolegol a chreu coetir ar y tir sy'n amgylchynu'r safle (yn rhannol ôl-weithredol) - Tir | Cynghorydd V Thomas | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais yn cael ei drafod |

| Cais a Chyfeirnod | Aelod(au)/Swyddog(ion) | Gweithred |
|---|---|---|
| yn Iard Froghall, Feidr Moreton, Llanusyllt (Saundersfoot) | | |
| Cofnod 6(c) isod NP/25/0569/FUL - Newid defnydd yr ardal ar y llawr gwaelod i atyniad dan do i ymwelwyr (D2) a Chanolfan Ddehongli (F1) - The Coastal Schooner, Yr Harbwr, Llanusyllt | Cynghorydd C Williams | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais yn cael ei drafod |

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2025 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Hancock, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Alderman, **penderfynwyd** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2025 yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

**Nodwyd.**

## 4. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn nodi bod penderfyniadau'r Awdurdod yn agored i'w scrwtineiddio gan y llysoedd ac y medrent fod yn destun adolygiad barnwrol a'i bod felly yn bwysig eu bod yn seiliedig ar y gyfraith.

**Nodwyd.**

**5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/25/0536/FUL<br>Cofnod 6(a) cyfeir | Creu un safle i deithwyr sy'n cynnwys un garafán sefydlog, un garafán deithiol, un ystafell ddydd/amlbwrpas, a gwelliannau ecolegol a chreu coetir ar y tir sy'n amgylchynu'r safle (yn rhannol ôl-weithredol) - Tir yn Iard Froghall, Feidr Moreton, Llanusyllt (Saundersfoot) | Helen Williams – Gwrthwynebydd<br><br>Lynne Garnett – Ymarferwr Hŷn – Cydlynydd Prosiect Cynllunio Cymunedol Teithio Rhagblaen – Cefnogwr<br><br>Andrew Vaughan-Harries – Asiant |

**6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

[Gan ei fod wedi datgelu buddiant rhagblaen yn y cais canlynol fe adawodd y Cynghorydd V Thomas yr ystafell tra roedd y cais canlynol o dan ystyriaeth]

(a) Cyfeirnod: NP/25/0536/FUL
Cynnig: Creu un safle i deithwyr sy'n cynnwys un garafán sefydlog, un garafán deithiol, un ystafell ddydd/amlbwrpas, a gwelliannau ecolegol a chreu coetir ar y tir sy'n amgylchynu'r safle (yn rhannol ôl-weithredol)
Lleoliad: Tir yn Iard Froghall, Feidr Moreton, Llanusyllt, Sir Benfro, SA69 9JG

Adroddwyd bod y cais hwn yn ailgyflwyniad o gynllun blaenorol a wrthodwyd, ynghyd â hyrwyddiadau ecolegol ychwanegol ar ben yr hyn a gyflwynwyd cynt. Roedd yna rybudd gorfodaeth wedi'i osod ar y safle ac roedd y Pwyllgor hefyd wedi ymweld â'r safle ym mis Mai 2025. Y prif faterion oedd p'un a oedd angen darpariaeth safle carafanau teithio ychwanegol yn yr ardal, ac a oedd amgylchiadau'r ymgeisydd yn bwysicach nag unrhyw niwed a ellid ei achosi i gymeriad a golwg y Parc Cenedlaethol.

Roedd Asesiad LletyTeithwyr Sipsiwn Sir Benfro 2019 (ALITS) wedi dangos bod yna angen ar unwaith am naw o leiniau cyn diwedd 2024, ac roedd hynny wedi'i wireddu, ac roedd yn dal i fod, angen am 25 o leiniau dros y cyfnod 2025 i 2033. Doedd yr ALITS 2019 ddim wedi nodi angen penodol am leiniau o fewn y Parc Cenedlaethol, ac roedd Cyngor Sir Penfro yn gwneud darpariaeth ar gyfer 55 o leiniau ychwanegol yn ei GDLl2, a oedd wedi'i gyflwyno i'w ystyried.

Roedd gan yr ymgeisydd lety ar hyn o bryd ac nid oedd yn ddigartref felly. Rhoddwyd peth pwys felly yn yr adroddiad i'r angen presennol nad oedd wedi'i wireddu am lety ar gyfer Sipsiwn Teithiol yn Sir Benfro. Roedd rhaid barnu'r angen hwnnw ochr yn ochr ag effaith y datblygiad ar dirlun y Parc Cenedlaethol a chynefinoedd yn yr ardal.

Roedd y safle o dan sylw oddi fewn i Ardal Cymeriad Tirlun (ACT1), oedd wedi'i asesu, a'r farn oedd nad oedd yna gapasiti pellach ar gyfer datblygiad carafanau o'r newydd. Roedd y cynnig yn cynnwys un garafán sefydlog ac un garafán deithiol, ynghyd ag ystafell aml bwrpas cysylltiol, ar gyfer defnydd preswyl. Roedd swyddogion o'r farn y byddai unrhyw ddatblygiad carafanau pellach yn yr ACT hon o unrhyw fath y tu hwnt i gapasiti'r tirlun, ac yn cyfrannu at effaith andwyol cronnus, a dangoswyd ffotograffau o'r awyr yn y cyfarfod yn dangos pa mor agos oedd y safleoedd carafanau gerllaw.

Roedd yna glirio sylweddol wedi bod ar y safle cyn cyflwyno'r cais ac roedd yr effaith ar y tirlun, bioamrywiaeth a gwytnwch yr ecosystem wedi'i asesu fel rhywbeth allai fod yn negyddol, ac roedd yna ansicrwydd

ynghylch yr effaith diffiniol am nad oedd yna asesiad cychwynnol wedi'i wneud cyn y gwaith clirio.

Roedd yr adroddiad yn argymell gwrthod y cais ar sail effaith ar y tirlun a niwed tebygol i fioamrywiaeth gan gynnwys colli cynefinoedd a darpariaeth annigonol o Adeiledd Gwyrdd.

Yn y cyfarfod cynghorodd y Cynghorydd Williams ei fod wedi derbyn galwad ffôn yn ddiweddar a bod y galwr wedi dweud nad oedd yr ymgeisydd yn aelod o gymuned y Teithwyr Sipsi, ond cynghorodd ymhellach nad oedd wedi mynegi barn yng nghlyw'r galwr y naill ffordd na'r llall o ran y cais. Wrth ddiolch i'r Aelod am y wybodaeth cynghorodd y swyddogion bod y mater hefyd wedi cael sylw yn yr adroddiad am ei fod wedi'i godi gan drydydd partïon eraill. Ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yr Awdurdod mewn sefyllfa i benderfynu ynghylch yr honiadau, ac mai'r cam callaf felly oedd penderfynu'r cais ar y sail bod yr ymgeisydd yn aelod o'r gymuned Teithwyr Sipsi, gan fod gwybodaeth ynghylch hynny wedi'i gyflwyno yn y cais.

Nododd y swyddogion ers ysgrifennu'r adroddiad bod yr ymgeisydd a'r asiant wedi cyflwyno gwybodaeth bellach gan gynnwys gohebiaeth yn dangos bod gwaredu coed o'r safle wedi'i wneud gan berchnogion blaenorol, a hynny mewn ymateb i glefyd yr onnen, yn ogystal â chyfeiriadau at geisiadau cyffelyb benderfynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Penybont-ar-ogwr oedd wedi'u cymeradwyo. Roedd y wybodaeth wedi'i rannu gyda'r Aelodau ac wedi'i ystyried gan y swyddogion. Tra cydnabyddid rhywfaint o reoli coed gan berchnogion blaenorol roedd y swyddogion wedi adolygu'r ohebiaeth ynghyd â ffotograffau a gymerwyd mewn perthynas ag ymholiadau gorfodaeth blaenorol, oedd yn dangos bod yna glirio ar raddfa fawr wedi digwydd ar y safle ers mis Mawrth 2024, pan oedd y safle o dan berchnogaeth y perchennog presennol. Fodd bynnag, y mater pennaf oedd y ffaith nad oedd gwybodaeth ecolegol gychwynnol ar gael ers i'r ymgeisydd gymryd perchnogaeth o'r safle. Roedden nhw hefyd wedi ystyried amgylchiadau penderfyniad Pen-y-bont  ac roedd yn wahanol i'r cais cyfredol am fod ei leoliad y tu fas i Barc Cenedlaethol ac mewn ardal oedd â chapasiti ar gyfer mwy o garafanau.

Roedd yr Aelodau yn anfodlon gyda'r prinder ymateb wrth rhai ymgynghorwyr statudol ac o ran Cadw awgrymwyd anfon llythyr at yr Aelod Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn mynegi pryder yr Awdurdod. Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau hefyd yn ymwneud ag effaith ar y tirlun, draenio ar y safle a llifogydd ar hyd y ffordd fynediad. Atebodd y swyddogion mai'r pryder oedd gwybodaeth annigonol oedd yn ei gwneud yn anodd asesu effaith y datblygiad ar gynefinoedd a bioamrywiaeth, ac nad oedd angen Cymeradwyaeth Draenio Cynaliadwy

(CDC) ac roedd yn bosib delio â draenio dŵr wyneb trwy osod amod ac na fyddai'n rheswm dros wrthod, o ran llifogydd; yn olaf roedd yna fynediad arall ar gael ar gyfer cerbydau brys a fyddai'n dderbyniol trwy osod amod Grampian.

Y siaradwr cyntaf oedd Helen Williams, yn siarad ar ran preswylwyr Incline Way, ac roedd cefn eiddo rhai ohonyn nhw'n wynebu'r safle. Tynnodd sylw at adroddiad a gomisiynwyd gan y preswylwyr adeg y cais blaenorol yn gosod allan y rhesymau pam y dylid gwrthod y cais, a doedden nhw ddim yn credu bod yr ymgeisydd wedi cymryd unrhyw gamau lliniaru ers hynny. Nododd nad oedd yna unrhyw hanes o'r safle yn cael ei ddefnyddio yn gyfreithiol gan Sipsiwn a Theithwyr, a doedden nhw ddim yn credu bod y ceisiadau cynllunio y cyfeiriwyd atyn nhw gan yr asiant yn berthnasol

Nododd bod y safle y tu fas i'r ffin anheddu ac y byddai'r datblygiad yn cael effaith ar gymeriad yr ardal a'i fwynder gweledol. O ran clirio'r coed a'r prysgwydd dywedodd mai dim ond tair coeden oedd wedi'u gwaredu a bod hynny oherwydd clefyd yr onnen, ac mai prin oedd unrhyw glirio gan berchnogion blaenorol; cyfeiriodd at ffotograffau yn yr adroddiad wedi'i gomisiynu oedd yn dangos meddai hi effaith ddifrifol ar gymeriad y safle, cynefinoedd a bioamrywiaeth. Doedd hi ddim yn credu fod yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn debyg o liniaru hyn am fod hyn yn fwy fel mater o reoli coedlan. Cyfeiriodd Ms Williams at bryderon y byddai suddfannau yn draenio i'r nant a chyfrannu at lifogydd ar hyd Feidr Moreton, oedd yn llwybr ceffyl preifat, cul, ar hyd y rhan helaeth ohoni, ac felly ni ellid dangos mynediad diogel a chynaliadwy. Roedd hi o'r farn y byddai datblygu'r safle yn arwain at golli preifatrwydd, sŵn a llygredd golau. Cyfeiriodd hefyd at yr hanes o wrthod ceisiadau ar gyfer y safle a'r ffaith bod yna apêl wedi'i wrthod. Roedd hi'n credu bod y safle yn ffurfio rhan bwysig o leoliad y pentref a'i fod yn bwysig o ran cadwraeth natur. Credai mai swyddogaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd diogelu a hyrwyddo'r ardal ac y byddai caniatáu'r cais yn groes i'w swyddogaeth.

Yr ail siaradwr oedd Lynne Garnett o Teithio Ymlaen yn siarad o blaid y cais. Esboniodd ei bod yn cyd-lynu prosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth oedd wedi'i fwriadu i gynorthwyo'r Gymuned Deithiol i ddatblygu safleoedd preifat. Dywedodd bod Awdurdodau Lleol ar fai o ran eu dyletswydd trwy beidio â datblygu safleoedd cyngor digonol, trwy beidio ag ymwneud â chymuned Sipsiwn Teithiol a thrwy beidio â rhoi gwasanaethau ar gael i'r rhai hynny heb gyfrifiaduron. O ganlyniad mae'r gymuned wedi'i gorfodi i brynu tir i ddatblygu eu safleoedd eu hunain. Roedd hyn yn anodd oherwydd rhagfarnau yn eu herbyn ond fe allai safleoedd bychain yn eiddo i deuluoedd fod o fudd am y bydden nhw'n annog cymysgu a chysylltu â'r rheiny y tu fas i'r gymuned, gan wella dealltwriaeth a goddefgarwch.

Wrth droi at y cais gerbron y Pwyllgor dywedodd Ms Garnett fod y modd roedd yr ymgyrch yn erbyn y safle wedi'i gynnal yn peri pryder. Esboniodd ei bod wedi ymweld â'r ymgeisydd yn ei gartref nad oedd o'r ansawdd gorau ac esboniodd ei fod am ymddeol i dir oedd yn eiddo iddo o fewn cymuned lle bu yn byw a gweithio ynddi, yn y gorffennol, a'i fod wedi treulio llawer o'i fywyd yn byw mewn carafán.  Fel llawer o Deithwyr roedd wedi'i orfodi i fyw mewn llety anaddas. Mynnodd Ms Garnett fod y galw am safleoedd Teithwyr Sipsi yn fwy o lawer na'r galw am dai cymdeithasol a bod llawer wedi bod ar restr aros ers dros ugain mlynedd. Roedd yr awgrym nad oedd yr ymgeisydd yn ddigartref yn dangos pa mor amhosib oedd y sefyllfa - doedd e ddim wedi rhoi'r gorau i'w eiddo ar rent ond roedd wedi'i feirniadu am symud ei garafán i'r safle. Nododd bod arian sylweddol wedi'i wario i ddatblygu'r safle ac roedd llawer o Deithwyr yn anwybodus ynghylch y broses ALITS ac roedd hi felly yn amau pa mor ddibynadwy oedd ar gyfer mesur angen. Nododd nad oedd Cymuned Sipsiwn Teithiol yn cydnabod ffiniau Awdurdodau Lleol ond yn chwilio mewn ardaloedd sy'n apelio iddyn nhw, lle bynnag mae yna waith ar eu cyfer neu lle mae tir wedi'i gynnig iddyn nhw gan aelodau eraill o'r teulu. Dywedodd fod hiliaeth yn erbyn Teithwyr Sipsiwn yn broblem - roedd pwy bynnag fyddai'n gwerthu tir iddyn nhw yn aml yn cael eu hanwybyddu ac felly roedden nhw o dan anfantais.

Yn olaf roedd Ms Garnett o'r farn y byddai'n bosib delio ag effaith un cartref mudol trwy osod amod. Roedd y safle eisoes wedi'i ranguddio'n dda ac roedd yr ymgeisydd am ddal at hynny.  Nododd drachefn na ddylid beio'r ymgeisydd yn unig am waredu coed. Ni allai ddeall sut y gallai un garafan greu sefyllfa o orddatblygiad o garafanau. Galwodd ar y Pwyllgor felly i ail-ystyried ac edrych ar ffyrdd newydd o weithio gyda'r gymuned Teithwyr Sipsiwn ac i leihau'r argyfwng llety difrifol sy'n wynebu'r cymunedau hyn.

Y siaradwr olaf oedd yr Asiant, Mr Andrew Vaughan-Harries. Dywedodd ei fod yn dal i ddysgu ffeithiau newydd am y safle wrth gyfeirio at y wybodaeth newydd ynghylch clirio tir yn flaenorol. Nododd bod Polisi 53 yn annog sefydlu safleoedd teithwyr o fewn y Parc Cenedlaethol ond nad oedd yna'r un safle wedi'i ddynodi. Nododd bod yr ALITS wedi dangos angen ond roedd o'r farn bod Cyngor Sir Penfro heb gydnabod yr angen, ac er yn gwneud eu gorau, roedd angen mwy o safleoedd o hyd. Roedd o'r farn bod y safle o dan sylw yn bodloni nifer o feini prawf Polisi 53. Wrth gyfeirio at adroddiad y swyddog nododd mai'r pryder pennaf oedd yr effaith ecolegol a thirlunio ar y safle, ond roedd o'r farn y gellid sicrhau gwell ecoleg. Dim ond nawr roedd ei gleient yn dechrau deall beth oedd y waelodlin ac roedd wedi cynghori nad oedd yn gyfrifol am y cyfan o'r clirio. Cynghorodd Mr Vaughan-Harries ei fod wedi gofyn am ohiriad er mwyn ceisio canfod y waelodlin ecolegol pan oedd ei gleient wedi prynu'r

safle ac i ddangos bod yna dir digonol yn dal i fod yno er mwyn hyrwyddo a chuddio'r datblygiad. Terfynodd trwy ddweud ei fod o'r farn bod y safle yn darparu lleoliad ardderchog, wedi'i guddio'n dda ac roedd ymatebion cadarnhaol wedi dod i law o ran priffyrdd a draenio gan yr ymgynghorwyr statudol.

Dywedodd un Aelod iddo weld yr ymgeisydd ar y safle yn defnyddio tyrchwr yng Ngwanwyn 2024 a holodd beth oedd yn ei wneud yno os nad oedd yn clirio'r safle. Mewn ymateb ni wadodd Mr Vaughan-Harries bod ei gleient wedi gosod deunydd caled ar yr hyn a oedd yn arfer bod yn iard a'i fod wedi defnyddio'r tyrchwr i wastatau'r safle ac i grynhoi coed oedd wedi'u clirio cynt, gan barhau â'r gwaith oedd wedi'i wneud cyn iddo gymryd perchnogaeth, gan fod y safle wedi'i adael yn anniben. Dywedodd nad oedd ei gleient wedi torri coed am nad oedd yn berchen ar lifgadwyn ond roedd peth gwaith clirio i'w wneud. Cyfeiriodd Aelod arall at y ffaith fod y safle ar hyn o bryd wedi'i ranguddio gan ffens drefol a oedd yn anaddas o safbwynt tirlunio ac fe nododd Mr Vaughan-Harries wrth ymateb bod y safle yn y Parc Cenedlaethol a bod y cais, fodd bynnag, am wella'r sefyllfa trwy blannu a chreu cloddiau. Cyfeiriodd y swyddogion at y cloddiau arfaethedig oedd wedi'u cyflwyno o dan gynllun tirweddu'r Asiant.

Cytunodd yr Aelodau bod yna rai materion cymhleth o ran y waelodlin ecolegol, ond roedden nhw o'r farn bod y cais yn groes i bolisi. Roedden nhw hefyd yn nodi bod swyddogion Cyngor Sir Penfro ar y pryd yn gweithio ar y cyd gyda'r Gymuned Sipsiwn Teithiol. Rhoddwyd yr argymhelliad i wrthod gerbron gan y Cynghorydd Clements a'i eilio gan Dr Plummer. Mynegodd un Aelod y farn y dylid cymeradwyo'r cais ar sail cydraddoldeb ac amrywiaeth. Pan roddwyd y mater i bleidlais cafodd y cynnig i wrthod ei gario.

**Penderfyniad: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

**1. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi arwain at effaith tirluniol annerbyniol ar y Parc Cenedlaethol ac o bosib yn amharu ar rywogaethau a chynefinoedd oddi fewn i gefn gwlad. Fyddai'r cynnig ddim yn cydweddu â phwrpas y Parc Cenedlaethol o ddiogelu a hyrwyddo ei brydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ac ni fyddai'n diogelu ei Nodweddion Arbennig na'i dirlun. Mae'r cais hefyd heb ddangos Buddiant Net i Fioamrywiaeth. O'r herwydd, ystyrir y cynnig yn groes i Bolisi 1 (Amcanion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol), Polisi 8 (Nodweddion Arbennig), Polisi 14 (Cadwraeth a Hyrwyddiant Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Polisi 30 (Mwynder), (meini prawf d ac f) o Bolisi 53 (Safleoedd Pobol Sioe, Teithwyr a Sipsiwn) o'r CDLl2, Adran 6 o**

**Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), a'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016.**

**2. Yn absenoldeb tystiolaeth ecolegol gadarn ac o ystyried y posibilrwydd o golli cynefin dyfrgwn, roedd y cais heb ddangos y byddai effeithiau ar ddyfrgwn ac ar gywirdeb Ardal Gadwraeth Arbennig Aberoedd a Bae Caerfyrddin wedi'u hosgoi. O'r herwydd ystyrir y cais yn groes i Bolisi 10 (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd), Polisi 11 (Safleoedd a Rhywogaethau Cenedlaethol wedi'u Diogelu), ac Adran 6 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (wedi'u diwygio), a'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016.**

**3. Byddai'r cynnig yn cyflwyno datblygiad carafanau mewn rhan o'r Parc Cenedlaethol sydd heb gapasiti tirluniol, yn arwain at effeithiau annerbyniol cronnus sydd yn groes i Bolisi 41: Datblygiadau Cabannau, Gwersylla a Charafanau a'r Canllaw Cynllunio Ychwanegol Cabannau, Gwersylla a Charafanau.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd Bowen ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod cyn cynnal y bleidlais ar y cais canlynol.]

[Cafodd y cyfarfod ei ohirio rhwng 11.45am a 12.05pm]

| | | |
|---|---|---|
| (b) | Cyfeirnod: | NP/25/0230/FUL |
| | Cynnig: | Eiddo un ystafell wely â lle ar gyfer gweithio gartref |
| | Lleoliad: | Llain gyferbyn i Delfryn, Heol Serpentine, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro SA70 8DD |

Adroddwyd bod y cais hwn yn chwennych caniatâd i godi eiddo un ystafell wely un llawr gyda darpariaeth i weithio gartref. Roedd y safle yn cynnwys llain wag ar Heol Serpentine, oddi fewn i ffin canol Dinbych-y-pysgod a oedd ar hyn o bryd yn llawn gordyfiant a garej heb do tuag at ran ddwyreiniol y llain.

Doedd y mwyafrif o'r ymgynghorwyr ddim wedi nodi sylwadau gwrthwynebus ond roedd Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod wedi gwrthwynebu'r cynnig ar sail gor-ddatblygiad, a'r ffaith bod y safle yn gyfyng iawn. Roedd sylwadau un trydydd parti wedi dod i law ac roedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Roedd y dyluniad yn cynnig agwedd gyfoes i safle mewnlenwi bychan na fyddai'n cael effaith sylweddol ar yr olygfa stryd am nad oedd iddo fawr o uchder ac wedi'i osod y tu ôl i du blaen yr anheddau bob ochr iddo. Doedd yna ddim materion mwynder na phreifatrwydd ac o osod amodau

priodol ynghylch tirweddu a diogelu coed, doedd yna ddim gwrthwynebiad i'r cynllun o ran y Swyddog Coed a Thirwedd na'r Ecolegydd.

Roedd Dŵr Cymru wedi cynghori bod safle'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli yn ardal dalgylch cynllun carthffosiaeth cyhoeddus sy'n draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Dinbych-y-pysgod, ac wedi cadarnhau nad oedd ganddo'r capasiti o ran llif yn mynd heibio (capasiti tywydd gwlyb). Ni fyddai'r capasiti hwn yn cael ei ddarparu tan fis Rhagfyr 2029 ac o'r herwydd roedd amod yn atal preswylio tan fis Rhagfyr 2029 wedi'i awgrymu i sicrhau na fyddai yna niwed amgylcheddol yn cael ei achosi o ganlyniad i'r datblygiad hwn.

Am fod y cais yn nodi codi annedd ar y farchnad agored roedd angen cyfraniad ariannol tuag at dai fforddiadwy oddi ar y safle yn unol â Pholisi 48 o'r CDLl2. Fodd bynnag, yn ddibynnol ar amodau priodol, a chyfraniad tuag at dai fforddiadwy yn cael ei sicrhau trwy gytundeb cyfreithiol, ystyriwyd bod darparu annedd fechan yn y lleoliad hwn yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio datblygu lleol a chenedlaethol, a'r argymhelliad oedd dirprwyo cymeradwyo.

Yn y cyfarfod argymhellwyd nifer o amodau ychwanegol gan y swyddog. Y cyntaf oedd ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiad ddechrau o fewn pum mlynedd i ddyddiad y penderfyniad; cymryd ystyriaeth o'r amod yn atal preswylio tan fis Rhagfyr 2029 am fod hyn yn dal i gael ei ystyried yn rhesymol. Roedd ail amod yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno manylion triniaethau ffiniol i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod. Gofynnwyd hefyd am ddiwygio amod saith trwy ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cais pellach pe bai yna fwriad i lenwi'r ffald fewnol, er mwyn sicrhau darpariaeth parcio digonol.  Eglurodd y swyddog y byddai gwaredu un goeden yn ei gwneud yn ofynnol i blannu tair coeden yn ei lle a allai arwain at golli lle parcio.

Mynegodd yr Aelodau beth pryder ynghylch y sefyllfa a godwyd gan Dŵr Cymru a holwyd a fyddai eiddo lle'r oedd dim ond un gwely yn cael y fath effaith, ond cynghorodd y swyddogion bod amodau o'r fath yn gyffredin a'i bod yn angenrheidiol trin pob cais yn yr un modd, ac yn unol â'r cyngor a dderbyniwyd gan ymgynghorydd statudol a Dyletswydd Adran 6 yr Awdurdod o ran Bioamrywiaeth a Gwytnwch Systemaueco o dan y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016.  Cynghorodd y swyddogion hefyd ynghylch effeithiau cronnus nifer o safleoedd bychain gan rybuddio, er bod eu safbwynt  nhw o'r farn bod yr amod yn bodloni'r profion angenrheidiol, fe allai'r ymgeisydd archwilio hynny mewn apêl, fyddai'n darparu canllaw defnyddiol ar gyfer ceisiadau eraill.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y cais yn cynnig defnydd arloesol o lain bychan mewn dull isel ei effaith, a chroesawyd darparu eiddo un gwely yn Ninbych-y-pysgod. Yr argymhelliad oedd dirprwyo cymeradwyo a

gynigiwyd gan y Cynghorydd Clements, a'i eilio gan y Cynghorydd Skyrme-Blackhall ac fe'i cariwyd yn y bleidlais.

**Penderfyniad: Dirprwyo'r cais i swyddogion i'w gymeradwyo yn ddibynnol ar gyfraniad tuag at dai fforddiadwy yn cael ei sicrhau trwy gytundeb cyfreithiol wedi'i lofnodi'n llawn, ac yn ddibynnol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad a'i ddefnydd buddiol, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, mynediad, parcio, cydymffurfio â Chynllun Rheoli Trafnidiaeth Adeiladu, draenio, mewnlenwi'r ardal y tu blaen, gwaredu hawliau datblygu wedi'u caniatáu, cadw'r swyddfa yn y cartref, cynllun hyrwyddo bioamrywiaeth, clirio'r safle, tirweddu, diogelu coeden, draenio dŵr wyneb a thriniaeth o'r ffin.**

**Pe na bai cytundeb cyfreithiol yn cael ei dderbyn o fewn 30 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad rhoddid awdurdod wedi'i ddirprwyo i wrthod y cais.**

[Gan ei fod wedi datgelu buddiant yn y cais canlynol cyflwynodd y Cynghorydd Williams ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn y fan hon]

| | | |
|---|---|---|
| (c) | Cyfeirnod: | NP/25/0569/FUL |
| | Cynnig: | Newid defnydd yr ardal ar y llawr gwaelod i atyniad dan do i ymwelwyr (D2) a Chanolfan Ddehongli (F1) |
| | Lleoliad: | The Coastal Schooner, Yr Harbwr, Llanusyllt, Sir Benfro, SA69 9HE |

Adroddwyd bod safle'r cais yn rhan o adeilad y Coastal Schooner oedd wedi'i leoli ar ran o'r dec ar ben y cyfleuster llifddor oddi fewn i Harbwr Llanusyllt. Roedd yr adeilad yn atgynhyrchiad o lestr sgwner arfordirol draddodiadol, oedd yn gweithredu o'r harbwr yn ystod y cyfnod cloddio am lo i gludo'r glo o Llanusyllt. Mae'r adeiledd presennol yn cynnwys ardal ddehongli oddi fewn i'r darn canol, ardal fechan sinema cysylltiol wedi'i leoli yn y pen blaen, a chaffi wedi'i leoli yn ardal y starn gyda mynediad ar wahân, ac roedd hyn i gyd o fewn corff y llong.

Mae'r cynnig presennol yn chwennych darparu defnydd newydd oddi fewn i'r ardal ddehongli i gynnwys atyniad ymwelwyr golff mini o dan do, gan gadw'r wybodaeth ddehongli bresennol. Nid oes newidiadau allanol, heblaw am blannu, yn cael eu cynnig fel rhan o'r cais hwn.

Roedd swyddogion o'r farn bod y cais presennol ar gyfer defnydd newydd cymysg D2 ac F1 oddi fewn i'r Sgwner Arfordirol gyfredol, a fyddai'n cadw'r elfen ganolfan ddehongli (F1) ac yn ychwanegu cyfleuster golff mini dan do (D2), yn ddefnydd cymysg priodol ar gyfer yr adeiledd

cyfredol wedi'i leoli ar ddec cynnal achlysuron yn Harbwr Llanusyllt. Byddai'r gwaith arfaethedig, heblaw am y plannu, wedi'i lwyr gynnwys oddi fewn i'r adeiledd cyfredol ac yn darparu cyfleuster dan do i breswylwyr ac ymwelwyr, a ystyrid fel modd o hyrwyddo Economi Ymwelwyr yn yr ardal, nid dim ond yn ystod y tymor ymwelwyr ond hefyd y tu hwnt i anterth y tymor, gyda'r potensial o fod yn weithredol gydol y flwyddyn. O'r herwydd, ac yn ddibynnol ar gyfres o amodau pwrpasol i reoli'r datblygiad, ystyriwyd bod y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â gofynion Dyfodol Cymru a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol 2.

Mewn ymateb i gwestiwn eglurodd y swyddog na fyddai dec uchaf yr adeiledd yn cael ei effeithio ac y byddai'r toiled, y caffi a'r esgynnydd i'r dec uchaf yn aros yn eu lle. Roedd y swyddog hefyd yn cytuno y byddai'r niferoedd fyddai'n defnyddio'r cyfleuster wedi'u cyfyngu gan faint yr adeiledd ac y byddai aelod o'r staff bob amser ar gael pan fyddai ar agor.

Roedd yr Aelodau yn falch o ddeall y byddai'r Bwrdd Dehongli yn cael ei gadw a bod yna awgrym wedi'i wneud i gynnwys dehongli amgen, teuluol-gyfeillgar yn hytrach na'r hyn oedd wedi'i gynnig cynt. Rhoddwyd y cynnig i gymeradwyo gerbron gan Dr Plummer a'i eilio gan y Cynghorydd Hancock ac fe gariodd y dydd yn y bleidlais.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, yn unol â Datganiad Isadeiledd Gwyrdd ac oriau defnydd.**

**7. Apeliadau**

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu am wyth o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) sydd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru gan fanylu ynghylch ble mae pob un o'r saith wedi cyrraedd o ran y broses apêl.

Adroddwyd am un penderfyniad apêl yn ymwneud â EC22/0038, Lleoli Pod Gwersylla a gwaith draenio cysylltiedig - tir i'r gogledd o Pentop, Abercastell, Hwlffordd, oedd wedi'i wrthod yn rhannol ond roedd un elfen wedi'i ganiatáu. Nododd Pennaeth Rheoli Datblygu bod y pod gwersylla ei hun wedi'i ganiatáu fel safle trwyddedig gan gorff wedi'i eithrio ac felly nid oedd angen caniatâd ar ei gyfer; doedd manylion y cynllun tirweddu a ddylai gael ei ddarparu o fewn tri mis, ddim wedi dod i law hyd yma. Dangoswyd ffotograffau o'r safle, gan gynnwys y gwaith gwaredu, ar sgrin i'r Pwyllgor.

**Nodwyd.**

**8. Diolch.**

Talodd cadeiryddion y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Awdurdod deyrnged i gyfraniad Dr Rosie Plummer, gan fod ei chyfnod fel aelod wedi'i hapwyntio gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben ar 31 Ionawr. Byddid yn gweld ei heisiau yn fawr.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2026 heb eu diwygio. |